

# amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_

Astudiaethau Beiblaidd am y Nadolig

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



## DARLLENWCH

Genesis 3: 1-24

Eseia 7: 14-16



## ADNOD ALLWEDDOL

Eseia 7: 14

## Astudiaeth I Geni Crist – Rhoi Addewidion



### Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Rhufeiniaid 5: 12-21 | I Corinthiaid 15: 20-22 | Timotheus 2: 13 a 14


Awr enbyd o dywyll oedd honno pan chwalodd pechod y berthynas rhwng dyn a Duw! Eto, bryd hynny hyd yn oed, roedd addewid Duw o Waredwr yn disgleirio fel seren lachar, gan gynnig gobaith – hyd yn oed i ni!

### C Tanlinellwch yr ateb cywir ym mhob set o gromfachau.

(SARFF / SEBRA / SIPSI) demtiodd (ADDA / EFA) gyntaf i anufuddhau i Dduw yng ngardd (EDOM / EDEN / ESAU).

Gofynnodd Duw i'r wraig beth oedd hi wedi ei wneud.

### C Beth oedd ei hateb?



Defnyddiwyd dichell, celwydd ac amheuon gan Satan, a ymddangosodd ar lun sarff, er mwyn peri i Adda ac Efa bechu. Dewisodd y ddau anufuddhau yn hytrach nag ufuddhau a boddhau Duw. Yr anufudd-dod hwn oedd PECHOD CYNTAF dynoliaeth.

### C Darllenwch ac ysgrifennwch Rhufeiniaid 5: 12 er mwyn canfod canlyniadau ofnadwy eu pechod.


Eto, ar y diwrnod trist iawn hwn yn hanes dynoliaeth, pan gafodd y ddau eu gwahanu oddi wrth Dduw oherwydd eu pechod (Gweler 3: 24), rhoddodd Duw, o'i gariad anhraethol, yr ADDEWID GYNTAF o Waredwr. Byddai Hwnnw yn adfer y berthynas rhwng dyn a Duw.

3

1

2

**C** Darllenwch adnod 15 a llanwch y bylchau â'r geiriau priodol.

Wrth i Dduw gyhoeddi barn ar y sarff, dywedodd,: "Gosodaf ..... hefyd rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy ..... di a'i ..... hithau; bydd ef yn ..... dy ..... di, a thithau'n .....i sawdl ef."

3

Roedd Duw yn addo y câ'r Arglwydd Iesu Ei eni un diwrnod ac y byddai Ef yn rhoi 'eryd farwol' i Satan. Byddai Ef yn darparu iachawdwriaeth i'r rhai sydd wedi eu caethiwo gan bechod.



**C** Ysgrifennwch rif cywir yr adnod i gyfateb â phob un o addewidion Duw:-

Adnod
Adnod
Adnod

wrth y sarff: "Byddi'n bwyta llwch holl ddyddiau dy fywyd."

wrth Efa: "Mewn poen y byddi'n geni plant"

wrth Adda: "Drwy chwys dy wyneb y byddi'n bwyta."

3

**C** Ym mha ffordd hefyd y mellithiwyd y ddaear oherwydd bod y drws wedi ei agor i bechod?

1

Flynnyddoedd yn ddiweddarach, rhoddodd Duw addewid arall, drwy Ei was, y proffwyd Eseia. (Gweler Eseia 7)

**C** Beth oedd yr arwydd arbennig hwn y soniodd Eseia amdano?

1

**C** Beth fyddai Ei enw Ef?

Ei ystyr yw 'Duw gyda ni'.

1



Roedd hwn, yn wir, yn arwydd rhyfeddol. Does dim byd tebyg wedi digwydd erioed o'r blaen, na chynt nac wedyn! Pan ddigwyddodd hyn, dylai pobl fod wedi sylweddoli fod Duw wrthi yn cadw Ei addewidion.


Roedd genedigaeth Crist yn ddigwyddiad pwysig iawn yn hanes y byd! Roedd y digwyddiad hwn – dyfodiad Ei Fab yn Waredwr y byd – yn un yr oedd Duw wedi ei gynllunio, ei ragfynegi a'i reoli mewn ffordd wyrthiol

**C** Ysgrifennwch GWIR neu ANWIR wrth ymyl y datganiadau canlynol:-

- Efa oedd yr unig un i bechu. ....
- Rydym yn marw oherwydd ein bod yn bechaduriaid. ....
- Roedd gwyrtyf yn beichiogi ac yn geni mab yn arwydd gwyrthiol. ....
- Byddai'r Gwaredwr yn dinistrio Satan a'i holl weithredoedd. ....
- Daw addewidion Duw yn wir bob tro. ....

5




**DARLENWCH**  
 Mathew 1: 18-25


**ADNOD  
ALLWEDDOL**  
 Mathew 1: 21

**Astudiaeth 2 Genedigaeth Crist – Wynebu Problemau**

**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**

Galatiaid 4: 4 a 5 | Timotheus 1: 15 | Ioan 4: 9 a 14

Roedd Joseff yn wynebu penderfyniad anodd iawn. Canfu fod Mair, y ferch yr oedd ar fin ei phriodi, yn disgwyl babi! Mae'n siŵr iddo geisio dyfalu pwy oedd yn gyfrifol.


**C** Ysgrifennwch frawddeg i ddisgrifio ei fwriad.

**C** Pa nodwedd yn ei gymeriad a barodd iddo ymddwyn fel hyn? (Gweler adnod 19)

**C** Tanlinellwch enw'r person a ymwelodd â Joseff wrth i hwnnw bendroni ynglŷn â beth ddylai ei wneud.

Ei dad   Mair   Angel   Dafydd   Offeiriad

**C** Rhowch gylch o gwmpas sut yr ymddangosodd negesydd Duw i Joseff.

Mewn perth o dân.   Mewn cwmwl.   Mewn breuddwyd.


**C** Darllenwch adnod 20 ac ysgrifennwch y geiriau priodol yn y bylchau ac yna gorfennwch y frawddeg er mwyn dweud beth ddywedodd yr angel wrtho.

“Joseff fab ..... paid ag .....cymryd ..... yn  
 ..... i ti, oherwydd .....  
 .....”

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol er mwyn canfod beth arall ddywedodd yr angel.


Byth ers i Adda ac Efa anufuddhau i Dduw yng Ngardd Eden, roedd gwir angen Gwarddwr. Ar draws y canrifoedd, roedd Duw wedi bod yn addo Ei anfon, ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer Ei ddyfodiad. Bellach, roedd yr adeg berffaith honno ar gyfer Ei eni wedi cyrraedd – roedd y Gwarddwr ar ddod!



**C** Darllenwch ac ysgrifennwch Galatiaid 4: 4, sy'n esbonio'r pwynt hwn.

2

Roedd y digwyddiadau hyn yn cyflawni proffwydoliaeth a roddwyd flynyddoedd lawer ynghynt.

**C** Darllenwch Mathew 1: 22 a 23 a chyfeiriwch at Astudiaeth 1 i ganfod enw'r proffwyd a ysgrifennodd y geiriau hyn.

1

**C** Tanlinellwch yr ateb cywir ym mhob set o gromfachau.

"Wele, bydd y (FERCH / WRAIG / WYRYF) yn beichiogi ac yn esgor ar

(FAB / MERCH / EFEILLIAID) a gelwir ef

(BETHUEL / SAMUEL / IMMANUEL)."

3

**C** Atebwch y canlynol a rhowch gylch o gwmpas eich atebion yn y CHWILAIR.

1. Ymddangosodd yr angel i bwy?.....

F Y R Y W G

2. Enw mam y Plentyn. ....

P Ff E S O J

3. Un o enwau'r Plentyn. ....

E → Y M A N M

4. Disgrifiad y proffwyd o'r fam .....

Ch E D U A A

5. Cenhedlwyd y Plentyn drwy'r Ysbryd .....

O W G Y L I

6. Byddai Ei bobl yn cael eu hachub o'r rhain .....

D D A N G R

A I S T A M

U C R I S T

3

**C** Gan ddechrau gyda'r saeth, ysgrifennwch y llythrennau hynny sy'n esbonio ystyr un o enwau'r Plentyn. (Bydd 3 llythyren ar ôl heb eu defnyddio).

1

**C** Yn eich geiriau eich hun, ysgrifennwch beth wnaeth Joseff pan ddeffrodd.

1

Os byddwn ni, fel Joseff, yn ymddiried ac yn ufuddhau i Air Duw, pan ddown wyneb yn wyneb â phroblemau, gallwn ninnau hefyd fod yn sicr y cawn help gan Dduw. Cofiwch, pan fyddwn yn adnabod yr Arglwydd Iesu fel ein Gwardwr, gallwn bob tro ddweud Wrtho am ein hanawsterau drwy weddio arno Ef. Fel ein Ffrind, mae Ef yn barod ar bob adeg i'n gwrandao ac i'n helpu.

**C** Pa enw roddodd Joseff ar Fab cyntaf-anedig Mair?

1

Ystyr yr enw hwn yw 'Duw, Y Gwardwr'




**DARLENWCH**  
 Mathew 2: 1-12

**ADNOD  
ALLWEDDOL**  
 Mathew 2: 6

**Astudiaeth 3 Genedigaeth Crist – Cyflawni Proffwydoliaethau**
**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**


Eseia 9: 6    Micha 5: 2    Ioan 14: 1-6

Nid damwain oedd genedigaeth yr Arglwydd Iesu! Nid Mair a Joseff drefnodd y cyfan, ond Duw Ei Hun yn hytrach, a hynny mewn ffordd ryfeddol a hynod ofalus! Yn ogystal ag anfon angylion i gyhoeddi'r newyddion da i'r bugeiliaid, gosododd Duw arwydd anghyffredin yn yr awyr i gyhoeddi Ei enedigaeth!

- C** Beth welwyd yn yr awyr?
- C** Ble'r oedd y dynion pan welsant hon?
- C** Pam y teithiodd y dynion hyn i Jerwsalem?
- C** Pwy oedd y brenin bryd hynny?
- C** Pa gwestiwn a ofynasant i'r brenin?


4



Pan ymgynghorodd y brenin â'i 'arbenigwyr', dywedasant wrtho y byddai'r Crist yn cael Ei eni ym Methlehem.

- C** Tanlinellwch yr ateb sy'n dweud beth oedd ffynhonnell eu gwybodaeth.

Dyddiadur y brenin.    Penawdau papur newydd.    Ysgrifeniadau'r proffwyd.


Roedd Micha wedi cofnodi'r wybodaeth hon tua 700 mlynedd cyn genedigaeth Crist.

- C** Edrychwch ar broffwydoliaeth Micha (Micha 5: 2). Defnyddiwch y ffeithiau a welir yno a rhowch linell drwy'r geiriau **ANGHYWIR**.

Enw llawn y dref oedd Bethlehem Elcana / Efraim / Efrata.

Tref fach oedd hon yn Jwda / Jopa / Jesreel.

Eto, o hon y daw allan Filwr / Arweinydd / Adeiladydd / dros Itwrea / Isachar / Israel.



4

Mae'r cymal olaf ym Micha 5: 2 yn ein dysgu fod yr Arglwydd Iesu yn bod cyn Iddo gael Ei eni ym Methlehem.

**C Trowch i Eseia 9: 6 a rhestrwch holl enwau'r "bachgen a aned .... y mab a roed."**


4

Dyna beth bendigedig yw gweld bod y proffwydoliaethau hyn o'r Hen Destament wedi eu gwireddu mor fanwl gywir!

Mae gweld cyflawni proffwydoliaethau'r Hen Destament yn y Testament Newydd yn ategu'n fawr ein ffydd yn y Beibl fel Gair ysbrydoledig Duw. Mae hyn hefyd yn ein hargyhoeddi y bydd proffwydoliaethau sydd eto i'w cyflawni hefyd yn dod yn wir, e.e. yr addewid y bydd ein Harglwydd yn dychwelyd. Dyma Ei eiriau, "Ac os af .....fe ddof yn ôl." (Ioan 14: 3) Gofynnodd Herod i'r Doethion (seryddion) roi gwybod iddo ble'r oedd y Plentyn, ar ôl iddynt ddod o hyd Iddo.

**C Roedd yn awyddus i wneud beth, meddai?**

--

1

Gwyddom fod Herod, wrth ddweud hynny, yn annidwyll ac yn ddichellgar. (Gweler 2: 13)  
Roedd addoliad y Doethion yn dra gwahanol.



**C Ysgrifennwch frawddeg i ddangos pa mor ddidwyll a diffuant oedd y Doethion wrth Ei addoli Ef.**


3


**C Atebion un gair yn unig sydd eu hangen i'r sylwadau canlynol am ymweliad y Doethion â'r Plentyn Iesu.**

1. Eu hymateb wrth weld y seren.
2. Un o'r anrhegion a roddasant Iddo.
3. Y fan lle cawsant y Baban.
4. Dyma a wnaethant pan welsant Ef.


2

Roedd y Doethion yn ystyried Iesu fel Rheolwr neu Arweinydd ac fel Rhywun oedd yn deilwng o'u rhoddion drutaf a'u haddoliad mwyaf didwyll. I Herod, fodd bynnag, roedd Iesu yn wrthwynebydd ac yn fygythiad i'w orsedd.

Sut ydych chi'n Ei weld Ef? Ai Ef yw unig Arglwydd eich bywyd neu a yw Ef yn fygythiad i'ch ffordd chi o fyw?




**DARLENWCH**  
 Mathew 2: 13-23

**ADNOD ALLWEDDOL**  
 Hebraid 2: 14

**Astudiaeth 4 Genedigaeth Crist – Dechrau'r Erledigaeth**

**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**

Genesis 3: 15 Actau 10: 38-43

Ystyriai Herod fod genedigaeth Crist yn fygythiad personol iddo. Gorchmynnodd ladd pob bachgen dyflwydd (2) oed ac iau oedd yn byw ym Methlehem a'r cyffiniau. Drwy wneud hyn, roedd yn gobeithio y byddai'r Arglwydd Iesu ymhlith y rhai a laddwyd! Cynllun anfad oedd hwn o eiddo Herod, oherwydd mai Satan oedd wrth wraidd y cyfan. Roedd Genesis 3: 15 yn cael ei gyflawni, yn rhannol.

**C Chwiliwch am yr adnod hon yn y Beibl ac ysgrifennwch beth mae'n ei ddweud am y berthynas rhwng y sarff (Satan) a "had y wraig" (Yr Arglwydd Iesu Grist)**




Ar Galfaria, byddai'r Arglwydd Iesu yn maeddu (sathru) Satan ac yn dwyn ei rym oddi arno. Dyma un o'r rhesymau pam y cafodd Ef Ei eni i'n byd ni!


**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n adrodd y ffaith bwysig hon wrthym.**




Yn y Darlleniad o'r Beibl, gwelwn fod Duw wrth y llyw! Drwy Ei angel, rhoddodd Duw gyfarwyddyd i Joseff ar sut i achub y Plentyn bach rhag cynllun creulon Herod.

**C Llanwch y BLOC GEIRIAU.**

1. Rhybuddiwyd Joseff drwy gyfrwng hon.
2. Derbyniodd Joseff gyfarwyddyd gan hwn.
3. Dywedwyd wrth Joseff am fynd i'r lle hwn. [2 air]
4. Roedd Joseff yn cyflawni geiriau'r .....
5. Perthynas Mair i'r Iesu.



**Yn ôl yr angel, tan pryd roedd Joseff a'i deulu i aros yn y wlad dramor?  
(Gweler y Darlleniad o'r Beibl)**

--

**C Ysgrifennwch Cywir neu Anghywir wrth ymyl y gosodiadau canlynol:-**

- Gadawodd Joseff Jwdea fin nos. ....
- Aeth â'r Plentyn bach yn unig gydag ef. ....
- Arhosodd yn yr Aifft hyd nes marwolaeth Herod. ....
- Rhagfynegodd proffwyd y câi'r bechgyn eu lladd. ....
- Hiriam oedd y brenin ar y pryd. ....



Pan adawodd y teulu wlad yr Aifft ymhen hir a hwyr, roedden nhw'n cyflawni geiriau Hosea, y proffwyd. (Gweler Mathew 2:15)

**C** Ysgrifennwch broffwydoliaeth Hosea.


**Cwblhewch y CROESAIR.**

**I LAWR**

1. Enw'r llyfr yn yr Hen Destament sy'n dod cyn Galarnad ac sy'n cael ei enwi yn adnod 17.
2. Enw'r brenin pan ddychwelodd Joseff.
5. Ymateb Joseff pan glywodd am y brenin newydd.

**AR DRAWS**

3. Enw'r brenin a orchynnodd y lladdfa.
4. Y dref yr ymgartrefodd Joseff ynddi.
6. Y berthynas rhwng 3 ar draws a 2 i lawr.
7. Y rhanbarth yr aeth Joseff iddi yn lle Jwda.
8. Siaradodd Duw â Joseff mewn .....



Drwy gydol yr amser anodd hwn, bu Duw yn siarad â Joseff mewn breuddwydion

**C** Ysgrifennwch rif y tair adnod lle digwyddodd hyn.

Ymddiriedodd Joseff yn Nuw bob tro a bu'n ufudd l'w Air.

**C** Yn ein 4 astudiaeth, sawl proffwydoliaeth sy'n cael eu crybwyll rhwng Mathew 1: 18 a Mathew 2: 23 fel rhai a gyflawnwyd eisoes?

Roedd genedigaeth yr Arglwydd Iesu Grist yn wyrthiol ac yn gyffredin ar yr un pryd, yn ddi-nod ac eto'n fawreddog! Rydym wedi darllen am ddynion yn Ei addoli ac yn ceisio Ei ladd! Drwy ein hastudiaethau, gwelsom gynllun rhyfeddol Duw yn cael ei ddatblygu. Dim ond chi all ateb y cwestiynau canlynol: Ydych chi'n credu – mai'r Baban a anwyd ym Methlehem yw Mab Duw?

- Iddo ddod o'r Nefoedd?
- Iddo farw ar groesbren Calfarfa?
- Iddo ddarparu iachawdwriaeth ar eich cyfer?
- Iddo godi o'r bedd yn fyw?

Mae Duw yn disgwyl am eich ateb!

**Nadolig Llawn iawn i chi!**  
**"Diolch i Dduw am Ei rodd anhraethadwy."**

2 Corinthiaid 9: 15

**cyfanswm**

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

---

---

---

---

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres iawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120